# Caffael Cymdeithasol Gyfrifol: Canllaw byr i'r ddeddfwriaeth newydd ar gyfer uwch arweinwyr

Ar 25 Mawrth 2026 daeth rheolau newydd ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru i rym. Mae'r dyletswyddau caffael yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (Deddf SPPP) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd sy'n gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

Mae dros £10 biliwn yn cael ei wario ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r Ddeddf SPPP yn ystyried caffael cyhoeddus i fod y broses gyfan, o'r camau cynllunio cynnar hyd at y cyfnod reoli contractau. Felly, mae angen i'r dyletswyddau gael eu rhoi ar waith ym mhob rhan o sefydliadau, ac nid yn unig mewn adrannau caffael.

Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Contractio a restrir yn Atodlen 1 o'r Ddeddf SPPP:

- osod a chyhoeddi Amcanion Caffael a Strategaethau Caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol.
- Ystyried cynnwys cymalau enghreifftiol ym mhob contract gwasanaethau a ddarperir gan gyflenwyr allanol a chontractau adeiladu mawr (dros £2m) a'u cymhwyso drwy eu cadwyni cyflenwi - gan roi gwybod i Weinidogion Cymru os nad ydynt yn bwriadu cynnwys a chymhwyso'r cymalau.
- Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar sut maent wedi cyflawni'r Amcanion maent yn eu gosod eu hunain, gan gynnwys rhai metrigau llesiant am eu cyflenwyr.
- Cyhoeddi Cofrestr Contractau a sicrhau bod hyn ar gael trwy eu gwefannau.

Mae'n hanfodol bod y dyletswyddau newydd yn cael eu cymhwyso'n gymesur. Dylai cyflenwyr llai ac Awdurdodau Contractio ganolbwyntio ar y risgiau a'r cyfleoedd o ran llesiant sy'n fwyaf perthnasol i bob caffaeliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres gynhwysfawr o ganllawiau statudol ar y dyletswyddau newydd, gan gynnwys Cod y Gweithlu ac Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cynnwys cymalau enghreifftiol o'r gweithlu cyhoeddus cymdeithasol, a set o gymalau enghreifftiol ar gyfer maes adeiladu. Mae modiwlau E-ddysgu ar gael ac mae diweddariadau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth GwerthwchiGymru i

gefnogi Awdurdodau Contractio i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol. Bydd rhagor o wybodaeth, gan gynnwys canllawiau i gyflenwyr, yn cael eu darparu.

Dylai pob Awdurdod Contractio ystyried sut mae'r dyletswyddau newydd hyn yn berthnasol ym mhob rhan o'u sefydliadau, gweithio tuag at gyhoeddi eu Hamcanion, eu Strategaethau Caffael a'u Cofrestrau Contractau cyn gynted â phosibl, ac ymgyfarwyddo â'r cymalau enghreifftiol.

Ewch i'n tudalen we am ragor o wybodaeth.